CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun 3 Ebrill 2017**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Colin Lewis, Mrs Amanda Edwards, Peter Hazzelby, Ken Symmons, Bryan Rees, Mrs Kay Morgan, Iwan Davies, Mrs Eleri Davies, Hywel Davies

Ymunodd y *Cyng Sirol Haydn Lewis* â'r cyfarfod fel y nodir yn y cofnodion

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 8

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a dywedodd y byddai'r cyhoedd yn cael 20 munud cyn dechrau'r cyfarfod i gyflwyno unrhyw faterion yn ymwneud ag eitemau ar yr Agenda neu o ddiddordeb i'r cymunedau.

Wedyn dywedodd yr Is-gadeirydd, y Cyng B Rees, mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Dywedodd fod 4 aelod yn ymddeol, yn cynrychioli dros 100 mlynedd o brofiad fel aelodau etholedig a byddai colli'r profiad hwnnw'n gadael bwlch mawr. Dywedodd hefyd y byddai'r Cyng Sirol H Lewis yn rhoi'r gorau i'w sedd yn etholiadau mis Mai. Diolchodd i bawb a oedd wedi gwasanaethu eu cymunedau fel aelod o Gyngor Cymuned Llangoedmor ac i'r Cyng Sirol H Lewis am ei gymorth a'i gefnogaeth dros y blynyddoedd. Dymunodd yn dda iddynt i gyd, ac edrychai ymlaen at weithio gyda'r Cyngor newydd o 8 Mai.

Yna soniodd Mr J Whittle, Ms J Dailey a Ms M Prys-Davies am eu pryderon ynglŷn â chais rhif A170196. Amrywiai'r rheiny o'r effaith bosibl ar gymuned gynyddol a bywiog Llechryd, ei thrigolion a'i busnesau, i bryderon am iechyd, yn enwedig gan fod y mast mor agos i ysgol y pentref, ac effaith maint ac amlygrwydd y mast arfaethedig. Trafodwyd hefyd ei effaith bosibl ar fywyd gwyllt.

*Ymunodd y Cyng Sirol H Lewis â'r cyfarfod yn ystod y trafodaethau hyn.*

Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r cyhoedd a oedd wedi dod. Wedyn gadawsant y cyfarfod.

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs J Hawkes a ddywedodd, drwy'r Cadeirydd a'r Clerc, na fyddai hi, am resymau personol, yn sefyll yn yr etholiadau i ddod ar 4 Mai 2017. Diolchodd i holl aelodau'r Cyngor am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei chyfnod.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim

**4. Materion Personol**

Llongyfarchwyd y Cyng Mrs A Edwards ar gystadlu yn ei ras gyntaf, sef ras 10km Caerdydd.
Dywedwyd y byddai angladd y cyn Gyng L Gerrard yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn 8 Ebrill.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

A170188 Codi annedd, Llain wrth ymyl Craig y Nos, Gelli Wen, Llechryd (amlinelliad)
Cytunwyd i wrthwynebu'r cais gan ei fod yn fwy na gofynion y Cynllun Datblygu Lleol o ran nifer yr anheddau a fwriedid yn Llechryd; fod y safle'n rhy fach ar gyfer datblygiad preswyl derbyniol, ac y byddai'n cael effaith andwyol ar olwg yr ardal; y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar barcio a symud cerbydau yn y cul-de-

sac, ac awgrymai gwybodaeth leol fod traeniau'r ardal yn cael anhawster i ddelio â dŵr wyneb fel y mae, ac y byddai datblygiad pellach yn gwneud hyn yn waeth.

A170196 Gosod mast rhwyllwaith 15m o uchder i gynnal 3 antenna, 2 lestr ynghyd â chabanau cyfarpar cysylltiedig o fewn darn o dir gyda ffens i'r gorllewin o gyfnewidfa deleffon Llechryd. Ar ôl gwrando ar bryderon trigolion lleol a darllen gohebiaeth oddi wrth drigolion lleol am y cais, ar ôl trafodaeth cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r cais ar sail amgylcheddol; y byddai'n hollol ddieithr i'r ardal a'i heffaith weledol ar y pentref; a goblygiadau iechyd tybiedig mast o'r fath. Tynnwyd sylw hefyd at ei effaith ar fusnesau lleol, yn enwedig y rheiny sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yr economi leol a chyflogaeth. Roedd pryder hefyd y gallai'r mast effeithio ar y signalau telathrebu a lloeren presennol. Teimlid bod y pentref eisoes yn cael ei wasanaethu'n dda gan y ddarpariaeth bresennol ac y byddai'r effeithiau andwyol ar bentref Llechryd a'i drigolion lawer yn fwy nag unrhyw welliant yn y gwasanaethau cyfathrebu.

A170175 Newid defnydd ar ddarn o dir amaethyddol (2600 m sg) ar gyfer twristiaeth (llety gwyliau drwy'r flwyddyn) er mwyn codi un caban pren ar ei ben ei hun oddi ar y grid. Tir wrth ymyl ac i'r gorllewin o fwthyn gardd, Llangoedmor
Dywedwyd bod sylw wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol fod y Cyngor Cymuned yn penderfynu ceisiadau cynllunio, a gwnaed yn glir mai ymgynghori â'r Cyngor Cymuned yn unig a wneir ynglŷn â cheisiadau. Cyngor Sir Ceredigion sy'n gwneud penderfyniadau terfynol.

Gellir gweld pob cais yn:
http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswyliwr/Cynllunio/chwilio/Pages/default.aspx
https://www.ceredigion.gov.uk/English/Resident/Planning/applications/Pages/default.aspx

*Gorfodi cynllunio*
Roedd CSC wedi cadarnhau bod mater Corner Wood ar hyn o bryd yn nwylo'r adran gyfreithiol.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng I Davies a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**
Manteisiodd y Cyng Sirol H Lewis ar y cyfle i ddiolch i'r Cyngor a'r Cynghr am eu cefnogaeth iddo yn ystod ei flynyddoedd yn Gynghorydd Sir. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at ei ymddeoliad, a dymunodd bob lwc i'r cynghorwyr presennol yn eu hymdrechion yn y dyfodol.

**8. Cyllid a Gweinyddu**
*Taliadau*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.04.17 | Abacus | Glanhau'r bloc toiledau | 170.00 | |
| | Telemat | Gwefan | 120.00 | |
| | L M Jeremiah | Tapiau yn y bloc toiledau | 110.00 | |
| | SSE | Bil trydan Swalec | 34.66 | |
| | Ms M Jones | Cyfieithu | 160.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio ystafell Mawrth 17 | 15.00 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y cartref | 25.00 | |
| 30.04.17 | S E Houghton | Cyflog | 330.18 | AS |
| | | | 964.84 | |

*Cynigiwyd gan y Cyng C Lewis, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.*

*Ethol*
Atgoffwyd y Cyngr mai'r dyddiad olaf i gyflwyno ffurflenni enwebu oedd 4.4.17 am 4pm. Byddai'r Cyngr presennol yn parhau tan 8 Mai 2017. Byddai Cyngr newydd yn dod i'w swydd ar 8 Mai 2017. Byddai'n ofynnol i'r holl Gyngr a fyddai'n dod i'w swydd ar 8.5.17 lofnodi Datganiad Derbyn y Swydd, a'r Clerc yn gorfod bod yn dyst i hynny.

*Diwedd y Flwyddyn*
Dywedodd y Clerc bod y gwaith ffigurau wrth law a'i bod yn disgwyl adroddiad terfynol y banc cyn anfon y cyfrifon at Mrs Jamison ar gyfer archwiliad mewnol.

*Map*

Cysylltodd y Clerc ag Archifau'r Sir o ran y map hanesyddol sydd erbyn hyn yng ngofal y Cyng B Rees. Roedd Archifau'r Sir wedi awgrymu y gallai fod yn bosibl iddyn nhw gael grant i drwsio'r map.

*Rhoddion*
***Ceisiadau am Gyfraniadau Ebrill 2017***
Ar ôl trafod cytunwyd i wneud y cyfraniadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gŵyl Fawr Aberteifi | £300 |
| Ffermwyr Ifanc Ceredigion | £200 |
| Radio BECA | £100 |

Cynigiwyd: Cynigiwyd gan y Cyng G Evans, eiliwyd gan y Cyng B Rees, cytunwyd yn unfrydol.

Dywedodd y Clerc fod CSC i gynnig hyfforddiant i Glercod ar y dull gweithredu. Gan fod hyn yn gwrthdaro â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ni fyddai'n gallu bod yn bresennol.

## 9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus

*Cyfrif Traffig*
Roedd CSC wedi cadarnhau bod dau beiriant dros dro i gyfrif traffig wedi'u defnyddio gan yr Awdurdod yn Llechryd. Diben hyn oedd er mwyn i CSC allu darparu data traffig diweddar i Bartneriaeth Lleihau Damweiniau Ffyrdd Cymru, fel rhan o gynigiad y dylai Llechryd fod yn safle camera diogelwch, ac felly elwa o orfodi rheolaeth dros y terfyn cyflymdra yno gan y Bartneriaeth. Dywedwyd bod y wybodaeth ar gael am gost o £200 am bob set o ddata. Cytunwyd i gysylltu â'r CS i ddweud bod y Cyngor yn teimlo bod y costau'n afresymol o uchel am ddata a oedd eisoes yn bod, a gofynnwyd a ellid cael y data gan FOC.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Arwyddion baw cŵn*
Roedd y Cyng Mrs A Edwards yn garedig wedi paratoi rhai arwyddion. Roedd ychydig ddryswch am y geiriad, a chytunodd yn garedig i ail-lunio'r arwyddion a'u dosbarthu i bawb.
**GWEITHREDU:** Rhagor o arwyddion i gael eu creu GAN: Y Cyng Mrs A Edwards.

*Blychau blodau*
Roedd y Felin Goed wedi cysylltu â'r Cadeirydd ac wedi darparu rhestr dorri. Dywedodd fod y Coleg wrth law i wneud y blychau.
**GWEITHREDU:** Llythyron i ddiolch i'r Felin Goed a'r Coleg (y Cadeirydd i ddarparu manylion cyswllt i'r Clerc) GAN: Y Clerc

*Platiau enw*
Dywedodd y Clerc y dylai'r platiau enw newydd gael eu codi yn ystod yr wythnos i ddod.

*Diffibrileiddiwr*
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod y padiau wedi'u hadnewyddu. Mynegodd bryder y gallai'r blwch fod yn anodd ei agor. Cytunwyd i edrych ar ddulliau gwahanol. Cadarnhaodd y Clerc, pan gysylltodd hi â Calonnau Cymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn ddiweddar, mai'r dewis gorau oedd blychau gyda chodau neu allweddi i'w hagor. Holwyd a oedd y cyfarpar yn y lle iawn, ond nid awgrymwyd unrhyw safle gwahanol. Cytunwyd hefyd y dylid darparu hysbysiad cliriach ac y byddai'r Clerc yn sicrhau bod y cyfarpar wedi'i gofrestru gyda gwefan Ambiwlans Cymru.
**GWEITHREDU:** Archwilio blychau GAN: Y Clerc **GWEITHREDU:** Hysbysiad newydd GAN: Y Cyng Mrs A Edwards.

## 10. Amwynderau

Roedd tapiau newydd wedi'u gosod yn y *bloc toiledau*. Dywedodd y Clerc fod Abacus Cleaning Services yn cael bod y toiledau'n cael eu rhwystro'n fwriadol ac adeiladau'r bloc toiledau ar y cyfan yn cael eu gadael mewn cyflwr gwael.

*Gwaith trydan*
Roedd y Clerc wedi bod yn holi ynglŷn â chwblhau'r gwaith oedd ar ôl heb ei wneud. Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards i ddarparu allweddi'r bloc pe bae'r contractwyr yn cysylltu â hi.

*Siglen y cae chwarae*
Roedd y Clerc yn holi am ddyfynbris ar gyfer y gwaith. Sylwyd bod y contractiwr wedi bod ar y safle yn gynharach yn y dydd.

*Torri Porfa*
Roedd Mr Brown wedi torri porfa'r cae chwarae am y tro cyntaf, ond gan fod y borfa mor hir dywedodd nad oedd yn gymen iawn. Dywedodd y dylai pethau wella gyda'r toriad nesaf. Sylwyd bod contract 2017/18 yn cynnig cyfle i gychwyn yn gynharach ym mis Mawrth os oedd y tyfiant yn cyfiawnhau hynny.

Mynegwyd pryder am wacau biniau yn ystod misoedd y gaeaf pan na fyddai Mr Brown ar y safle'n rheolaidd. Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards i siarad â gofalwr y Neuadd.
**GWEITHREDU:** Ceisio dod o hyd i rywun lleol GAN: Y Cyng Mrs A Edwards.

**11. Prosiectau'n Parhau**
*Llythyr Newyddion*
Cytunwyd i ddileu'r llythyr newyddion o'r agenda.
**GWEITHREDU:** Clerc

*Gardd Lysiau Gymunedol*
Dywedodd y Clerc ei bod yn dal i ddisgwyl lluniau o'r ardal a byddai'n ddiolchgar i unrhyw un allai eu darparu gan nad oedd y siŵr o'i hunion leoliad.

**12. Digwyddiadau**
Cinio'r Cadeirydd – 28 Ebrill

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim

**14. Gohebiaeth + gohebiaeth e-bost**
**I WEITHREDU arnynt**
Cais am gefnogaeth i Cymru i Bawb - http://cymruibawb.cymru/en/
Cytunwyd y dylai'r Cyngor 'newydd' drafod hwn.

**I GAEL SYLW**
Swydd Wag Cefnogaeth Weinyddol Llywodraeth Cymru - Cau 7 Ebrill

Llythyr o ddiolch oddi wrth Mr L Lloyd am longyfarchion y Cyngor ar ei MBE

Llythyr o ddiolch oddi wrth Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017 am arian grant

E-ddeiseb am doriadau mewn arian i gynnal a chadw a darparu mannau chwarae i blant

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Gofynnwyd i'r Cyngr edrych ar gyflwr yr hysbysfwrdd yn y Parc Ceir ar eu ffordd i'r cyfarfod nesaf oherwydd byddai ei drwsio neu ei adnewyddu mewn rhyw ffordd yn cael ei drafod.

Dywedodd y Cyng K Symmons fod platiau enw newydd y pentref wedi'u gosod.

Gofynnodd y Cyng Mrs K Davies a ellid edrych ar gyflwr y seddau yn yr hen fynwent. Cytunodd y Cyng B Rees i fynd gyda hi i archwilio'u cyflwr ac yna ddod ag adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Sylwyd, pe bae angen cael seddau newydd, y dylai platiau enw'r rhoddwyr etc gael eu gosod ar y meinciau newydd os byddai hynny'n bosibl.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 15.05.17 – AGM a Chyfarfod Cyffredin 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9pm*